# PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL.

Dydd Iau, 15 Awst 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.A.L. Evans (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
G. Davies, P. Hughes-Griffiths a K. Lloyd

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
T. Pilarz, Cyfreithiwr Cynorthwyol
S. Williams, Uwch Swyddog Trefniant Ysgolion
L. McFarlane, Swyddog Polisi a Datblygu Teithio Dysgwyr
L. Jenkins, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. 10.00 - 10.15 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. COFNODION

### 3.1. 17EG GORFFENNAF, 2019 (2.00 Y.P.)

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2019 (2.00pm) yn gofnod cywir.**

### 3.2. 17EG GORFFENNAF, 2019 (2.15 Y.P.)

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2019 (2.15pm) yn gofnod cywir.**

### 3.3. 17EG GORFFENNAF, 2019 (2.30 Y.P.)

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2019 (2.30pm) yn gofnod cywir.**

### 3.4. 17EG GORFFENNAF, 2019 (2.45 Y.P.)

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2019 (2.45pm) yn gofnod cywir.**

**3.5. 17EG GORFFENNAF, 2019 (3.00 Y.P.)**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2019 (3.00pm) yn gofnod cywir.**

**4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**5. I YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD D.R YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL.**

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.
Roedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol oedd yn ymwneud â'r ymgeisydd. Byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, ond ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd na'i deulu.

Croesawodd y Cadeirydd swyddogion o wasanaethau'r Gyfraith, yr Amgylchedd ac Addysg a Gwasanaethau Plant i'r cyfarfod. Bu'r Pwyllgor yn ystyried sylwadau ysgrifenedig yr apelydd mewn perthynas â phenderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod darparu cludiant am ddim i D.R i ysgol ddynodedig agosaf yr Awdurdod Addysg Lleol a oedd o fewn y pellter cerdded statudol, ac nad oedd felly'n cydymffurfio â'r meini prawf ym mholisi'r Cyngor ar gyfer rhoi cymorth.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i sylwadau'r swyddogion adrannol, ynghyd ag amgylchiadau unigol yr achos a'r asesiad o'r llwybr cerdded posibl o gyfeiriad cartref D.R i'r ysgol ddynodedig. Nododd y Panel y byddai D.R yn gymwys i wneud cais am sedd wag ar fws yr ysgol, ac y dylid rhoi gwybod iddo am hyn.

**PENDERFYNWYD gwrthod yr apêl, yn unol â Pholisi'r Awdurdod ynghylch Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, ar y sail bod cyfeiriad cartref D.R o fewn pellter cerdded statudol i ysgol ddynodedig yr Awdurdod Addysg Lleol a bod y llwybr cerdded hwnnw wedi'i asesu, yn unol â meini prawf Llywodraeth Cymru, ac y bernid ei fod yn addas.**

________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**